**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Ein cyf/Our ref: MA/KW/0043/20

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru

14 Ionawr 2020

Annwyl Llŷr,

Yn ystod sesiwn graffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb ddrafft 2020-21 ar 18 Rhagfyr, gofynnodd Alun Davies AC sut y byddai'r £8m ychwanegol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael ei ddyrannu. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi gofyn i mi ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth hon.

Rydym yn cydnabod bod awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn parhau i wynebu pwysau sylweddol wrth gefnogi pobl ifanc ag ADY. Bwriedir i'r £8m ychwanegol a glustnodwyd ar gyfer ADY yn 2020-21 helpu i reoli'r pwysau hwnnw. Bydd yn helpu i sicrhau bod modd i ddarparwyr barhau i roi'r cymorth o ansawdd uchel sydd ei angen ar ddysgwyr ag anghenion cymhleth, fel y maent yn ei haeddu, wrth weithredu ein rhaglen uchelgeisiol i ddiwygio'r system ADY. Bydd y cyllid ychwanegol hwn ar wahân i'n Rhaglen i Drawsnewid y System ADY. Mae'r gyllideb ar gyfer y Rhaglen i Drawsnewid y System ADY yn parhau heb newid, £20 miliwn dros dymor y Cynulliad hwn.

Bydd y cyllid yn cael ei rannu rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn unol â chyfran y dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ym mhob sector. Defnyddir fformiwla Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion AAA neu amrywiad ar hyn i bennu dyraniadau i awdurdodau lleol unigol a'r dyraniadau i sefydliadau addysg bellach a fydd yn cael eu gwneud drwy'r grant Cymorth Dysgu Ychwanegol i Addysg Bellach. Bydd y gwaith monitro yn gyson â'r gofynion adrodd ar gyfer pob sector.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn ysgrifennu atoch unwaith eto pan fydd y cyfrifiadau a'r dyraniadau unigol wedi'u cadarnhau.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Copi: Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd